Honiadau Diogelu/ Pryderon am Ymarferwyr a'r rhai sydd mewn Protocol Swydd â Chyfrifoldeb dros Rywun

1 Beth yw e…
Mae'r protocol hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer ymateb i bryderon diogelu ynghylch y rhai y mae eu gwaith, naill ai'n gyflogedig neu'n wirfoddol, yn dod â nhw i gyswllt â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg. Mae hefyd yn cynnwys unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu dros blant neu unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt ac y mae eu gwaith cyflogedig neu eu gwaith gwirfoddol yn dod â nhw i gysylltiad â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg.

2 Y diben...
Mae'r protocol hwn yn nodi'r broses y dylai asiantaethau ei dilyn wrth ymateb i honiadau yn erbyn oedolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae'r protocol yn cynnwys y trothwyon ar gyfer gweithredu a chanllawiau ynghylch amserlenni priodol ar gyfer ymchwilio. Mae'r Rolau yn y protocol hwn yn seiliedig ar y rhai a nodwyd yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru. Gweithdrefnau.

3 Pryd y dylid ei ddefnyddio…
Dylid defnyddio'r protocol hwn ym mhob achos pan wneir honiadau yn erbyn unigolyn sydd wedi niweidio neu a allai fod wedi niweidio plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg y maent mewn cysylltiad â nhw drwy eu gwaith, naill ai mewn swydd gyflogedig neu wirfoddol. Mae hefyd yn cynnwys unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant neu oedolion y mae angen gofal a chymorth arnynt.

4 Gwneud Adroddiad (Atgyfeirio)…
Dylai unrhyw berson sydd â phryder am blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg atgyfeirio ei bryderon drwy gyflwyno ffurflen adroddiad (atgyfeirio) i faes perthnasol yr awdurdod lleol. Dylai'r adroddiad dynnu sylw'n glir at y ffaith bod hwn yn bryder y tynnwyd ei sylw ato mewn perthynas â honiad yn erbyn ymarferydd, gwirfoddolwr neu ofalwr.

5 Trafodaeth/Cyfarfod Strategaeth Ymarferwyr...
Bydd y Drafodaeth Strategaeth Ymarferwyr bob amser yn digwydd gyda'r Heddlu ac unrhyw asiantaethau/partneriaid priodol eraill. Bydd Cyfarfod Strategaeth yr Ymarferwyr yn cael ei gadeirio a'i gynnull gan y Swyddog Diogelu Dynodedig (SDD) pan fo pryderon amddiffyn plant neu oedolion wedi'u codi am unigolyn. Bydd y SDD ar gyfer plant neu oedolion hefyd yn nodi pwy ddylai fynychu.

6 Hysbysu pob parti...
Dylai'r sawl sy'n destun yr honiad gael gwybod cyn gynted â phosibl a dylid ei drin yn deg ac yn onest. Dylid rhoi gwybod i rieni/gofalwyr yr oedolyn neu'r plentyn/plant dan sylw am yr honiad cyn gynted â phosibl ond dim ond ar ôl trafod â'r SDD sy'n gyfrifol am bryderon Ymarferwyr.

7 Cwblhau'r Broses…
Bydd anghenion diogelu'r plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg a allai fod wedi cael ei gam-drin neu ei niweidio bob amser yn hollbwysig yn y broses hon. I gloi, gwneir penderfyniad ar ganlyniadau a bydd testun yr honiad bob amser yn cael ei hysbysu'n llawn am hyn.

Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
BDORhCaF
C&VRSAB
Cardiff & Vale of Glamorgan Regional Safeguarding Adults Board

Mae Protocol Honiadau a Phryderon Diogelu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ar gael yma:

Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg
Cardiff and Vale of Glamorgan Regional Safeguarding Children Board